Cynllun Grantiau Gwirfoddoli Cymru – Dyfarniadau Grantiau Strategol 2025-28

Rownd	Mudiad	Disgrifiad o'r prosiect	Grant a ddyfarnwyd
1	Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru	Bydd Menter Gwirfoddoli Genedlaethol Heneb yn harneisio archaeoleg i wella llesiant, hybu cyflogadwyedd a chryfhau cymunedau Cymru. Trwy werthuso'r ddarpariaeth ranbarthol bresennol; gwella tegwch profiadau gwirfoddoli; datblygu partneriaethau traws-sector a llunio gweithgareddau gwirfoddoli gwerthfawr cenedlaethol y gellir eu hehangu, byddwn yn creu Cynllun Gwirfoddoli Archaeoleg Cymru cynaliadwy; gan gysylltu pobl, lleoedd a chyfleoedd trwy dreftadaeth a diwylliant a rennir.	£100,000.00
1	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Gan adeiladu ar lwyddiant ei brosiectau 'ffynonellu torfol' diweddar (gwirfoddoli digidol), bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn sefydlu platfform ar-lein i fudiadau a chymunedau ledled Cymru gyflawni eu prosiectau gwirfoddoli treftadaeth ddiwylliannol digidol eu hunain. Bydd hyn yn datgloi'r potensial digyffelyb i gael prosiectau gwirfoddoli torfol yng Nghymru.	£99,985.55
1	Clwb Gwirfoddoli Teuluol	Cefnogi datblygiad strategol y Clwb Gwirfoddoli Teuluol yng Nghymru, gan ehangu o'r Fenni i Gaerdydd, Wrecsam a Chonwy. Ymwreiddio gwirfoddoli sy'n ystyriol o 1deuluoedd, cael gwared â'r rhwystrau i a1lluogi teuluoedd i wirfoddoli, rhannu dysgu a g1weithio'n uniongyrchol gyda 15+ o grwpiau elusennol a chymunedol lleol, ynghyd ag Awdurdodau Lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a Chanolfannau Teuluol.	£51,055.00

1	ACE – Gweithredu yng Nghaerau a Threlái	Gyda'n gwirfoddolwyr, byddwn yn cyd-greu cynnig o rannu dysgu gyda grwpiau lleol er mwyn datblygu gwirfoddoli lleol. Byddwn yn cryfhau'r cydweithio er mwyn cryfhau nifer ac ansawdd y cyfleoedd gwirfoddoli, gan ddiwallu anghenion a nodwyd yn lleol, dathlu gwirfoddolwyr a chefnogi llesiant. Bydd y gwerthusiadau a'r dysgu o'r prosiect yn cael eu rhannu'n eang.	£55,741.30
1	Adferiad	Bydd Adferiad yn ymchwilio i'r rhwystrau a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchodedig, yn benodol, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, wrth geisio gwirfoddoli. Byddwn yn peilota datrysiadau mewn sefyllfaoedd go iawn ac yn cyhoeddi pecyn cymorth ymarferol, seiliedig ar dystiolaeth, i helpu mudiadau ledled Cymru i wneud gwirfoddoli yn fwy hygyrch, ac yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.	£69,702.36
1	Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid	Byddwn yn datblygu, peilota ac yn lansio fframwaith i uwchraddio'r seilwaith strategol a'r trefniadau gwirfoddoli o fewn ysgolion Cymraeg. Gan edrych ar yr ysgol gyfan, byddwn yn cefnogi ysgolion i gymell pob unigolyn ifanc i ddechrau a chadw ar daith wirfoddoli gydol oes sy'n dechrau yn yr ysgol ac yn cysylltu â'r gymuned.	£98,432.80
1	Chwaraeon Anabledd Cymru	Nod y prosiect hwn yw gwella hygyrchedd gwirfoddoli i bobl anabl yng Nghymru drwy adnabod y rhwystrau i greu cyfleoedd mwy cynhwysol. Trwy adolygiad cynhwysfawr, bydd y prosiect yn casglu mewnwelediadau gan unigolion anabl a mudiadau gwirfoddol i ddatblygu argymhellion y gellir eu gweithredu. Bydd y canfyddiadau'n dylanwadu ar bolisi, yn rhoi hyfforddiant ac yn gyrru newid hirdymor drwy'r partneriaethau chwaraeon rhanbarthol.	£96,799.80

1	Cadwch Gymru'n Daclus	Mae Ymddygiadau Gwastraff yn mynd i'r afael â negyddoldeb ynghylch casglu sbwriel a gwirfoddoli. Byddwn yn edrych ar pam mae pobl yn beirniadu a phostio sylwadau negyddol, ac yn profi ffyrdd o droi eu brwdfrydedd yn weithrediadau positif. Trwy unioni camwybodaeth a meithrin sgyrsiau adeiladol, byddwn yn ceisio creu gofod ar-lein cefnogol sy'n annog mwy o bobl, gan gynnwys y beirniaid, i wirfoddoli.	£93,988.10
1	Innovate Trust	Nod y prosiect hwn yw edrych ar y rhwystrau i wirfoddoli o fewn lleoliadau byw â chymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, defnyddio'r wybodaeth hon i gydgynhyrchu fframwaith ar gyfer ymwreiddio gwirfoddoli o fewn gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac edrych ar lwybrau Gwirfoddoli i Yrfa.	£95,024.68
1	Menter Effaith Gymunedol (Cii)	Byddwn yn edrych ar ymgysylltiad dynion ifanc â gwirfoddoli a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu llesiant. Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil yn galluogi mudiadau amlsector i recriwtio, cadw a chefnogi dynion ifanc sy'n gwirfoddoli drwy ymgysylltiad ystyrlon sy'n gwella eu llesiant, gan arwain at weithlu gwirfoddoli mwy poblog, rhywedd-gynhwysol a gwybodus.	£65,000.00
1	Cambrian Village Trust	Hyb gwirfoddoli symudol, cynaliadwy a fydd yn fuddiol i fudiadau, gwirfoddolwyr a chymunedau lleol fel ei gilydd ar hyd a lled y cwm. Mae gan fudiadau fynediad at gronfa ehangach o wirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr yn ehangu eu rhwydwaith cymdeithasol. Mae cymunedau yn cael budd o gyfleusterau sy'n gallu cael eu rhedeg mewn mannau a oedd yn brin o gymorth o'r blaen.	£61,749.59

1	Comisiwn Bevan (Prifysgol Abertawe)	Yng nghanol heriau gweithlu sylweddol ar draws y maes iechyd a gofal yng Nghymru, bydd y prosiect hwn yn cyd-ddylunio ac yn profi model cenedlaethol i ddatgloi sgiliau gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymddeol. Trwy greu rolau gwirfoddoli ystyrlon ac effeithiol a'r strwythurau i alluogi hyn, byddwn yn ceisio hybu capasiti, cynaliadwyedd, yn cadw arbenigedd hanfodol bwysig ac yn gwella llesiant.	£99,987.77
1	Hosbis Dewi Sant	Mae Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol Hosbis Dewi Sant a Chymorth Cymunedol Gwirfoddol Conwy (CVSC) yn ddull cydweithredol o ddod o hyd i lwybrau i wirfoddoli ym maes gofal lliniarol, iechyd a gofal cymdeithasol gogledd-orllewin Cymru. Bydd y prosiect 18 mis yn cael ei gwblhau gyda Strategaeth Wirfoddoli ranbarthol a fydd yn nodi'r seilwaith, yr adnoddau a'r anghenion hygyrchedd.	£98,021.84
1	Undeb Rygbi Cymru	Rydym yn trawsnewid gwirfoddoli ym maes Rygbi Cymru trwy ymwreiddio Strategaeth Recriwtio, Cadw, Gwobrwyo a Chydnabod newydd. Trwy gryfhau'r seilwaith, hybu cynhwysiant a meithrin partneriaethau, byddwn yn pwyso a mesur cyfleoedd ym mhob cwr o Gymru – gan sicrhau bod gwirfoddoli yn dod yn rym cynaliadwy, hygyrch a phwerus sy'n cyfoethogi cymunedau ac yn diogelu dyfodol ein gêm.	£100,000.00
1	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)	Dull gweithredu cydweithredol rhwng y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a busnesau'r sector preifat i: - baru cyfleoedd i reolwyr canol cwmnïau ymuno â byrddau Ymddiriedolwyr mudiadau gwaith ieuenctid - grymuso mudiadau gwaith ieuenctid i gael budd o set sgiliau'r sector preifat - datblygu dealltwriaeth y sector preifat o wirfoddoli yn y sector gwaith ieuenctid.	£67,027.00

1	Housing Justice Cymru	Bydd Housing Justice Cymru yn uwchraddio ac addasu'r prosiect Citadel i roi cymorth atal digartrefedd a chynnal tenantiaeth a arweinir gan wirfoddolwyr i bobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer ein gwasanaeth presennol i ddatblygu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer cymorth tai a arweinir gan wirfoddolwyr sydd wedi'i deilwra i bobl sy'n chwilio am noddfa.	£90,756.00
2	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cyd-greu ac ymwreiddio fframwaith gwirfoddoli cyson, cynhwysol, gydol oes ar draws Tirweddau Dynodedig Cymru, sy'n canolbwyntio ar wella'r profiad gwirfoddoli cyffredinol: wedi'i wreiddio mewn cysylltiad, gofal a pherthyn. Bydd y prosiect hwn yn mapio ac yn cryfhau'r ddarpariaeth bresennol, yn datblygu dulliau newydd, ac yn cael gwared ar rwystrau i gyfranogi, yn enwedig i bobl iau a grwpiau heb eu gwasanaethu'n ddigonol.	£99,750.00
2	Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol	Yn aml, gall llwybrau gwirfoddoli traddodiadol fynnu llawer o amser ac ymrwymiad. Rydyn ni'n credu bod llai o ddynion yn gwirfoddoli ledled Cymru i gefnogi achosion llythrennedd oherwydd y rhwystrau canfyddedig hyn. Gan ystyried arferion gorau'r sector, rydym am brofi a datblygu model gwirfoddoli sy'n effeithlon o ran amser, sy'n denu ac yn ymgysylltu â dynion.	£99,369.58
2	Tîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru	Byddwn yn gweithio gydag aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol i nodi rhwystrau a heriau i wirfoddoli gyda'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (YJS), sydd ag ychydig iawn o bobl ethnig leiafrifol yn eu carfanau gwirfoddol, os o gwbl. Bydd ein partneriaid yn YJS yn ein cefnogi i gael gwirfoddolwyr ethnig lleiafrifol newydd i gymryd rhan yn eu lleoliadau gwaith gwirfoddol. Bydd hyn yn cynnig modelau rôl positif sy'n deall cefndiroedd pobl ifanc ethnig leiafrifol sy'n gysylltiedig ag YJS, gan eu helpu i ymgysylltu trwy gynyddu eu hymddiriedaeth a gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel.	£99,849.41

2	Athletau Cymru Cyf	Nod Athletau Cymru yw cryfhau'r gwaith o recriwtio a chefnogi swyddogion gwirfoddol, gan gynyddu cyfleoedd i blant sy'n dechrau yn y maes chwaraeon hwn. Bydd y prosiect yn gwerthuso rhwystrau tybiedig er mwyn creu rolau newydd ac adnoddau cymorth modern, gan weithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu ag ieuenctid i greu llwybrau cynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr.	£87,433.33
2	Mentrau Iaith Cymru	Nod ein prosiect yw cryfhau partneriaethau ar lawr gwlad rhwng y Mentrau Iaith a'r CVCs fel bod gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cefnogi'n well. Bydd y gwaith yn adeiladu ar y 'Fframwaith' a sefydlwyd yn 2021 ac yn gweithredu gan ddefnyddio dau ddull gwahanol sy'n gyson â gwahanol feysydd ieithyddol.	£84,800.00
2	Heddlu De Cymru	Mae'r prosiect hwn yn dod â Phlismona, y trydydd sector a'r byd academaidd ynghyd i greu ymateb gwirfoddol a rennir dros Gymru i fod yn ddiogel ar-lein. Bydd yn dod â gwirfoddolwyr o bob sector ynghyd i werthfawrogi eu cyfraniadau. Bydd y prosiect yn dechrau'r gwaith o gydlynu a dylunio ar gyfer casglu a mapio data ar raddfa fawr.	£66,899.00
2	Cyngor Sir Fynwy	Byddwn yn sefydlu cymuned ymarfer gwerthuso Sir Fynwy, gan hyfforddi gwirfoddolwyr a mudiadau angori mewn Newid Mwyaf Arwyddocaol a dulliau meintiol cyflenwol. Gyda'i gilydd byddant yn cyd-gynhyrchu gwerthusiadau o brosiectau lleol, gan edrych ar effaith, galluogwyr a rhwystrau gwirfoddoli, llywio gwerthusiad trosfwaol a chynhyrchu dysgu trosglwyddadwy, partneriaethau cryfach a gallu lleol i werthuso.	£92,060.42